Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**[Enw Swyddog Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth]**
**[Teitl swydd Swyddog Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth]**
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

02/08/2013

Annwyl **[Enw Swyddog Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth],**

**PENNU SAFONAU A GWNEUD SAFONAU'N BENODOL GYMWYS**

Diolch am y cyfarfod ddoe, 1 Awst, i drafod rhai agweddau ar raglen waith arfaethedig gwneud safonau. Rwy'n falch ein bod wedi gallu cwrdd yn ddiymdroi er mwyn trafod cynnwys e bost 31 Gorffennaf a'r cynigion newydd oedd ynddo ynghylch y broses o fynd rhagddi i wneud safonau. Mae'n bwysig cytuno ffordd ymlaen sy'n cyd fynd gyda darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd e bost 31 Gorffennaf yn cyfeirio at ofyn caniatâd y Prif Weinidog i 'ymgynghori' ar y sail cynnwys yr e bost. Deallaf fod brys i wneud hynny er mwyn cadw at amserlen y Llywodraeth. Ni chytunwyd i unrhyw gamau newydd yn ein cyfarfod ddoe yn hytrach, ac er mwyn bod yn gwbl glir ynghylch rolau a threfn y broses o wneud safonau cytunom ei bod yn hanfodol cael pawb perthnasol o gylch y bwrdd.

Fe gafwyd trafodaethau ynghylch y broses 'ymgynghori' ddoe ac yn codi o hynny mae'n amlwg fod peth gwaith i'w wneud cyn y byddwn yn cyfarfod eto. Ymddengys i mi y byddai cyfarfod arfaethedig y 5ed o Fedi yn ymwela pe byddai dadansoddiad gwrthrychol wedi ei wneud o ddyletswyddau 'ymgynghori' Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg fel ei gilydd. Ystyriaf fod y materion hanfodol i roi sylw iddynt fel a ganlyn: -

> <u>Ymgynghori</u>: Mae'r Mesur yn cynnwys sawl lefel o ymgynghori gorfodol, o leiaf 3, cyn y gellir gosod hysbysiad cydymffurfio ar berson i gydymffurfio gyda safonau. Mewn cysylltiad â rheoliadau adran 150(2)(e) ac (g) [pennu safonau a gwneud safonau'n benodol gymwys] mae disgwyliad ar y Llywodraeth i ymgynghori wrth gasglu tystiolaeth briodol ar gyfer llunio AERh i'w gyflwyno i'r Cynulliad ochr yn ochr

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

â'r Rheoliadau dan sylw. Fel mater o ffaith mae AERh yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

Dyletswyddau ymgynghori Comisiynydd y Gymraeg: (adrannau 61 – 64 ac adran 47). Mae proses ymchwiliad safonau'n benodol iawn tra nad oes manylion ynghylch proses adran 47. Yr hyn sy'n glir fodd bynnag yw fod dyletswydd ar y Comisiynydd i ymgynghori â phob sefydliad cyn i hysbysiad cydymffurfio gael ei osod.

Dadansoddi swyddogaethau: Dylid dadansoddi opsiynau a chyfyngiadau ac amseriad y gwahanol ofynion ymgynghori o safbwynt y naill barti neu'r llall er mwyn ein cynorthwyo i weld yn glir ble mae'r rhwystrau sy'n hanfodol i'w goresgyn mewn modd cyfreithiol a phriodol i'r Llywodraeth a'r Comisiynydd. Byddai hyn yn gymorth i osgoi her o adolygiad barnwrol mewn cysylltiad ag unrhyw brosesau sydd i'w dilyn maes o law. Dylid nodi y gallasai her neu wrthodiad o'r rheoliadau greu oedi hir yn siwrnai'r safonau cyn eu bod yn cael eu pennu.

Gan symud at faterion eraill, trafodwyd a chadarnhawyd yn ein cyfarfod ar 1 Awst, y byddai swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn ymateb yn ysgrifenedig i safonau drafft Llywodraeth Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno amserlen ar gyfer hynny er mwyn gallu cynllunio i wneud y gwaith mewn modd ymatebol. Cytunwyd hefyd na fyddai unrhyw waith o'r math yma'n cael ei gyfeirio at y Comisiynydd hyd wythnos olaf Awst.

Fel o'r blaen nodwyd yn y cyfarfod ddoe y byddai Llywodraeth Cymru am ganolbwyntio ymgynghoriad yn unig ar 26 sefydliad sef Gweinidogion Cymru, Cynghorau Lleol a Parciau Cenedlaethol. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi mynegi safbwynt ar y mater hwn eisoes sef ei bod am wneud gymaint â phosib o ddarparwyr gwasanaeth mawr yn benodol gymwys i safonau'n syth. Yn y cyswllt hwn caiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau i berson neu grŵp o bersonau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelod o'r grŵp. Anfonodd y Comisiynydd lythyr at y Llywodraeth ar y 10fed o Fai yn esbonio beth oedd ei blaenoriaethau. Byddai o fantais i'r Llywodraeth gynllunio ar gyfer gwneud safonau'n benodol ar gyfer mwy na 26 sefydliad, ond mater i'r Llywodraeth yw hynny fel ag y mae cynnal ymchwiliad safonau'n fater i Gomisiynydd y Gymraeg.

Byddwn felly'n cwrdd ar y 5ed o Fedi ym Mharc Cathays gan edrych ymlaen at gael eglurder llawn ar y camau nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

**[Enw Swyddog Comisiynydd y Gymraeg - Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth]**
Ar ran Comisiynydd y Gymraeg